
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

www.cymru.gov.uk

## Rhoi **rhan 11** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith



**Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc**

## Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio;
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol;
- pan mae ganddyn nhw anabledd;
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu;
- pan maen nhw'n derbyn gofal; neu
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdanyn nhw fel y dylen nhw wneud.

## Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

*(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)*

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 11.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan - cliciwch yma:



## Paratoi

**Bydd pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw'n defnyddio'r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.**

Felly rydyn ni wrthi'n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae'r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

**Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi am y Cod Ymarfer a rhai o'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 11 y Ddeddf.**

**Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn barod ynglŷn â'r rhain, ond rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.**

**Wedyn, byddwn ni'n anfon y codau a'r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio'n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.**



## Beth y mae Rhan 11 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 11 y Ddeddf yn edrych ar faterion gwasanaethau cymdeithasol nad ydyn nhw'n cael sylw yn y 10 rhan arall. Mae'r rhain yn cynnwys:

- beth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei wneud i helpu pobl sydd yn y carchar, sydd dan warchodaeth ieuenctid neu sy'n aros i fynd gerbron y llys;
- sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn penderfynu lle mae rhywun yn byw; a
- beth sy'n digwydd pan mae pobl yn symud.

**Mae yna ddau faes yr hoffem ni edrych arnyn nhw yn y rhan yma o'r Ddeddf:**

### Ateb anghenion

**— beth bynnag y maen nhw wedi'i wneud.**

### Lle mae pobl yn byw

**— trefnu gofal a chymorth.**

### Ateb anghenion **— beth bynnag y maen nhw wedi'i wneud.**

Mae Rhan 11 y Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ateb anghenion a chefnogi pob oedolyn a phob plentyn, gan gynnwys y rheiny sydd yn y carchar, sydd dan warchodaeth ieuenctid neu sy'n aros i fynd gerbron y llys.

Mae'r Cod Ymarfer yn dweud wrth awdurdodau lleol sut i benderfynu pa ofal a chymorth i'w rhoi i:

- oedolion yn y carchar yng Nghymru;
- plant o Gymru sydd mewn llety diogel yng Nghymru neu Loegr; a
- rhai plant o Loegr sydd mewn llety diogel yng Nghymru.

Mae'r rheolau newydd yn golygu'r canlynol pan mae rhywun yn y carchar neu mewn llety diogel:

- ni allan nhw fod yn ofalwr am rywun arall;
- ni allan nhw gael awdurdodau lleol i roi arian iddyn nhw (taliadau uniongyrchol) i drefnu eu gofal;
- ni allan nhw ddewis y llety i fynd iddo; ac
- ni allan nhw gael awdurdodau lleol i warchod eu heiddo.



## Lle mae pobl yn byw — trefnu gofal a chymorth.

Mae’r Ddeddf newydd yma’n helpu awdurdodau lleol i benderfynu lle mae rhywun yn byw. Mae lle mae rhywun yn byw yn bwysig gan mai’r awdurdod lleol yn yr ardal honno sy’n gorfod penderfynu pa gymorth sydd ei angen ar bobl.

Mae’r Ddeddf hefyd yn helpu awdurdodau lleol i ddatrys unrhyw broblemau sy’n codi pan mae rhywun yn symud i ardal arall neu i gartref gofal mewn ardal arall.

Weithiau, mae’n gallu bod yn anodd penderfynu lle yw’r prif le y mae pobl yn byw, a phwy ddylai fod yn eu cefnogi nhw. Mae’r Cod Ymarfer yn manylu ar gamau fel bod awdurdodau’n gallu delio ag unrhyw anghydfodau sydd ganddyn nhw ynglŷn â lle mae rhywun yn byw a phwy ddylai fod yn talu am eu gofal a’u cymorth.

## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fyddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**erbyn 2 Chwefror 2015**



## Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Cod Ymarfer a'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 11 y Ddeddf yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

